

26/03/2021

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Yn dilyn cyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru bod arholiadau Haf 2021 wedi cael eu canslo, bydd graddau Safon Uwch / UG / TGAU / BTEC yn cael eu pennu gan ysgolion. Mae Cymwysterau Cymru a'r Cyrff Dyfarnu wedi datblygu proses trylwyr a theg i sicrhau bod y graddau priodol a chywir yn cael eu dyfarnu i bob disgybl ym mhob pwnc.

Bydd y graddau yn cael eu dyfarnu ar sail tystiolaeth ddibynadwy o ansawdd. Mae'r canllawiau hefyd yn pwysleisio na fydd myfyrwyr o dan anfantais oherwydd cyfnodau o absenoldeb o'r ysgol dros y deuddeg mis diwethaf.

Bydd y 'Graddau a Bennir gan y Ganolfan' (GBG) yma wedi eu selio ar dystiolaeth glir a gasglwyd fel rhan o astudiaethau myfyrwyr yn ystod y flwyddyn. Nid amcangyfrifon na rhagfynegiadau fydd rhain, ac nid yw'n bosibl dyfarnu graddau ar sail potensial. Byddant yn cael eu cyflwyno i'r Cyrff Dyfarnu, ac unwaith mae'r cyrff dyfarnu wedi cadarnhau bod yr ysgol wedi dilyn yr holl weithdrefnau'n gywir, mi fyddant yn cyhoeddi'r graddau i'r disgyblion ar y 10/08/21 i ddisgyblion Safon Uwch ac AS ac ar y 12/08/21 i ddisgyblion TGAU.

Bydd y GBG yn seiliedig ar asesiadau dibynadwy a byddwn yn casglu tystiolaeth trwy 3 dull gwahanol:

1. Asesiadau di-arholiad: mae rhai pynciau wedi cwblhau'r asesiadau hyn yn barod yn y dosbarth, tra bydd eraill yn eu cwblhau yn ystod hanner tymor cyntaf yr Haf. Nid oes gan bob pwnc asesiadau di-arholiad.
2. Cyn-bapurau wedi'u haddasu. Mae CBAC wedi darparu cyn-bapurau i'w defnyddio ar gyfer asesu dealltwriaeth disgyblion. Maent yn adnoddau dibynadwy ar gyfer asesu cyrhaeddiad disgyblion gan eu bod wedi bod drwy broses sicrhau ansawdd trylwyr ac mae tystiolaeth yn dangos eu bod yn deg ac yn ddiuedd.
3. Tystiolaeth bellach: gall athrawon ystyried unrhyw waith y mae disgyblion wedi'i wneud i atgyfnerthu asesiadau dosbarth. Fodd bynnag, mae CBAC wedi rhannu canllawiau clir i ysgolion er mwyn sicrhau bod y dystiolaeth hon yn ddibynadwy.

Mae'n bwysig atgoffa'ch plentyn na fydd o dan anfantais hyd yn oed os yw wedi colli tipyn mwy o ysgol na myfyrwyr eraill. Nid oes rhaid bod tystiolaeth disgyblion yn union o'r un faint – ansawdd y dystiolaeth a sut mae'n adlewyrchu'r radd sydd bwysicaf.

Yn ystod wythnos olaf y tymor yma a dechrau'r tymor nesaf, bydd pob pwnc yn hysbysu'ch plentyn o'r canlynol:

- Pa gynnwys sydd wedi'i astudio yn ystod y flwyddyn fydd yn cael ei asesu yn ystod yr asesiadau ystafell ddosbarth.



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600

swyddfabryntawe5@hwbcymru.net
www.bryntawe.swansea.sch.uk

Pennaeth : Mr Simon Davies



**BUDDSODDWR
MEWN POBL** | Aur



- Pa asesiadau fydd yn cael eu defnyddio i asesu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau disgyblion.
- Dyddiadau'r asesiadau yn fras.

Mae'n holl bwysig i bob disgybl ddeall, nad yw'r 'Asesiadau Dosbarth' rydym yn eu cynllunio yr un peth ag arholiadau. Ond, byddwn yn sicrhau y cymerir hwy gydag amodau rheoledig ac o dan oruchwyliaeth athrawon. Yn naturiol, fe all cyfnodau o hunan ynysu effeithio ar hyn a byddwn yn gwneud trefniadau priodol i gasglu tystiolaeth os bydd hyn yn digwydd.

Yn dilyn yr Asesiadau Dosbarth, bydd yr holl dystiolaeth yn mynd trwy broses cymedroli mewnol a sicrhau ansawdd er mwyn sicrhau asesiadau dibynadwy o fewn a rhwng adrannau.

Bydd GBG Dros Dro yn cael eu cyflwyno i bob myfyriwr ym mis Mehefin, a bydd cyfle i fyfyrwyr / rhieni i ofyn am adolygiad mewnol o'r radd. Byddwn yn cadarnhau'r trefniadau a'r dyddiadau pendant ar gyfer y broses adolygu cyn gynted ag y maent yn derfynol.

Bydd gan y cyrff dyfarnu broses apelio, a bydd hyn ar agor i fyfyrwyr/rhieni ar ôl cyhoeddi'r canlyniadau ym mis Awst. Mae gwybodaeth bellach ar gael i ddysgwyr ar safwe Cymwysterau Cymru: [Cymwysterau Cymru / Gwybodaeth i ddysgwyr \(qualificationswales.org\)](http://Cymwysterau Cymru / Gwybodaeth i ddysgwyr (qualificationswales.org))

Mae presenoldeb ar gyfer yr hanner tymor nesaf yn hollbwysig, ond os yw eich plentyn yn sâl neu yn gorfod hunan-ynysu, byddwn yn gwneud popeth posib i sicrhau ei fod/ei bod yn cael cyfle i gwblhau unrhyw asesiadau a gollwyd. Fodd bynnag, os nad yw hyn yn bosib, gyda chyfnod mor fyr cyn cyflwyno'r GBG byddwn yn bennu'r GBG yn seiliedig ar yr Asesiadau Dosbarth sydd wedi eu cwblhau, yn ogystal â'r gwaith / tystiolaeth y mae disgyblion eisoes wedi ei gwblhau.

Bydd trefniadau mynediad ar gyfer disgyblion ag anawsterau dysgu penodol ac ystyriaeth arbennig ar gael i unrhyw un sydd angen y rhain yn ystod pob asesiad.

Os oes unrhyw gwestiwn pellach gennych, peidiwch ag oedi i gysylltu â ni.

Yn ddiffuant,



Carwyn Jenkins
Dirprwy Bennaeth



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwrysydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600

swyddfabryntawe5@hwbcymru.net
www.bryntawe.swansea.sch.uk

Pennaeth : Mr Simon Davies



BUDDSODDWYR
MEWN POBL | Aur

